**Edwina Hart MBE OStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau Cynulliad

29 Ebrill 2014

Annwyl Aelodau Cynulliad

Yn ystod fy nghwestiynau ar 2 Ebrill, gofynnodd Darren Millar AC a oedd y gwaith archwilio wedi'i gwblhau o ran y cwmni Gwyddorau Bywyd ReNeuron ac a fyddem yn cyhoeddi'r manylion. Cytunais i ddarparu diweddariad.

Yn gyntaf, rwy'n falch o gadarnhau bod y broses o ail-leoli ReNeuron i Gymru yn mynd ymlaen yn dda. Mae ReNeuron, cwmni therapi celloedd amlwg, wedi llofnodi les 10 mlynedd gyda ni, gan ail-leoli'r busnes i leoliad modern newydd Meddygaeth Atgynhyrchiol ym Mhencoed. Bydd hyn yn creu 52 o swyddi newydd o safon uchel yn ogystal â'r rhai sy'n adleoli, drwy ddod â gweithgareddau ymchwil a datblygu ReNeuron, sydd o safon rhyngwladol, gweithgarwch cynhyrchu celloedd GMP a swyddogaethau clinigol, rheoleiddiol a masnachol cysylltiedig, a swyddogaethau'r brif swyddfa, ynghyd i un lleoliad.

Mae'r buddsoddiad hwn yn dystiolaeth pellach bod Strategaeth y Sector Gwyddorau Bywyd yn cynnig manteision economaidd gwell i Gymru, tra'n cryfhau'r buddsoddiad mewn Meddygaeth Atgynhyrchiol yng Nghymru.

Mae'r Aelodau'n ymwybodol bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn ymchwilio i'r buddsoddiad a wnaethpwyd gan Gronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru i ReNeuron. Rwy'n siomedig nad yw'r broses wedi datblygu ymhellach, ond gallaf gadarnhau bod swyddogion yn gweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru i ddod â'r broses archwilio i ben cyn gynted â phosib.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*